

# Enaid Mynyddoedd Cambrian

Canllaw Brandio a Marchnata

## The Spirit of the Cambrian Mountains

A Guide to Branding and Marketing





# Adrodd Ein Stori

Mae pobl sy'n adnabod Mynyddoedd Cambrian  
yn gwybod am hudoliaeth yr ardal.

Lle gwyllt a lle croesawgar.

Lle o harddwch a chymunedau.

Lle llawn bywyd a llawn treftadaeth hefyd.

Lle sydd wrth galon cenedl, o ran daearyddiaeth ac emosiwn.

Nawr, r'yn ni am i ragor o bobl glywed ein stori.

Ac mae hi'n stori anferth.

R'yn ni am i chi, y bobl sy'n ystyried Mynyddoedd Cambrian yn gartref,  
a'r bobl sy'n byw a gweithio yma heddiw ein helpu i rannu'r stori.

Dyna pam ein bod wedi creu'r canllaw yma i gyfleu ysbryd y lle.

Bydd yn helpu pawb i hyrwyddo Mynyddoedd Cambrian yn glir,  
gyda neges gyson.

**Croeso i rannu enaid Mynyddoedd Cambrian.**

# Telling Our Story

Those who know the Cambrian Mountains know  
what a special area it is.

A place that is both wild and welcoming.

A place of beauty and community.

A living place with a fascinating heritage.

A place at the heart of a nation, geographically and emotionally.

Now we want more people to hear our story.

And what a story it is.

We want you, the people who call the Cambrian Mountains  
home and the people who live and work here,  
to help us share that story.

That's why we have created this spirit guide.

It helps everyone to promote the Cambrian Mountains in a way which  
is both distinctive and coherent.

**Welcome to the spirit of the Cambrian Mountains.**



# Ein Syniad ar Gyfer y Brand

Dyma'r golau sy'n galw. Mae'n disgleirio ar Fynyddoedd Cambrian ac yn galw ymwelwyr yma. Yn dangos yn glir beth sydd yma a pham y dylai pobl ddod. Mae'n cynnig ysbrydoliaeth i bobl a busnesau Mynyddoedd Cambrian. Mae'n ychwanegu gwerth at eich cynnyrch a'r profiadau yr 'ych chi'n eu creu. Mae'n helpu gwneuthurwyr polisi i ddatblygu a diogelu'r ardal mewn ffyrdd sy'n gyson â'r brand.

Yn wahanol i rannau eraill o Gymru sydd hefyd yn gyfoethog o ran hanes a harddwch, does gan Fynyddoedd y Cambrian ddim statws swyddogol arbennig. Felly, mae ein syniad ni ar gyfer y brand yn creu'r statws hwnnw. Statws unigryw. Un sy'n gwbl wir ac yn diffinio'r rhan arbennig yma o Gymru.

## Ardal o Harddwch Naturiol Syfrdanol

Ynghudd yng nghalon Cymru, mae lle o harddwch syfrdanol.

Yma, gall teithwyr llawn antur ddod o hyd i olygfeydd gwylt a gwefreiddiol.

Gydag ehangder o dir agored a llecynnau sy'n llawn croeso.

Dyma ucheldir Cymru, lle mae pobl a natur yn cyd-fyw'n gytûn ers canrifoedd maith.

Heddiw, gallwch gerdded, seiclo a merlota ar lwybrau a thraciau a theithio ar ffyrdd a grëwyd gan fwynwyr, mynachod neu borthmyn.

Un o'r teithiau diweddaraf yw Llwybr Seryddol Mynyddoedd Cambrian.

Felly, aiff pob diwrnod â chi yn nes at natur, a phob nos yn nes at y sêr.

Yn ein barn ni, darn o nefoedd ar y ddaear.

Mae'n le arbennig sy'n gwneud i chi deimlo'n arbennig.

**Dyma Fynyddoedd Cambrian. Ardal o Harddwch Naturiol Syfrdanol.**

# Our Brand Idea

This is our beacon. It helps shine a light on the Cambrian Mountains, drawing visitors to us. Clarifying what we have and why people should make the journey. It also provides inspiration to the people and businesses within the Cambrian Mountains. It adds value to the products and experiences you create. And it helps policy makers develop and safeguard the area in a way which is consistent with our brand.

Unlike many other parts of Wales which are rich in history and beauty, the Cambrian Mountains doesn't have a special designation. So, our brand idea creates one. One that is unique. One that is undeniably true and one that defines this special part of Wales.

## Area of Astounding Natural Beauty

Hidden at the heart of Wales, is a place of astounding beauty.

Here, adventurous travellers will discover wild & wonderful landscapes.

With open spaces, and welcoming places.

This is upland Wales, where people and nature have lived in harmony for centuries.

Today, you can walk, cycle and ride paths and trails and travel roads, created by miners, monks and drovers.

One of our newest trails is the Cambrian Mountains Astro Trail.

So, each day will take you closer to nature and each night you can feel closer to the stars.

We think this is a little bit of heaven on earth.


It's special because it makes you feel special.

**This is the Cambrian Mountains. Area of Astounding Natural Beauty.**



Dyma Fynyddoedd y Cambrian.  
Ardal o Harddwch Naturiol Syfrdanol.

This is the Cambrian Mountains.  
Area of Astounding Natural Beauty.





# I'r Teithwyr

Mae Mynyddoedd Cambrian yn cynnig croeso i bawb. Ond r'yn ni am i'n busnesau ffynnu, a'n cymunedau hefyd. Felly, rhaid i ni ganolbwyntio ar yr ymwelwyr a ddaw â mwya' o les i'r ardal. R'yn ni eisiau Ymwelwyr sy'n Cyfrannu: yn cyfrannu at gyfoeth Mynyddoedd Cambrian, yn cyfrannu at stori Mynyddoedd Cambrian trwy lefaru ar eu rhan a rhannu, yn cyfrannu at ddiwylliant a natur y lle ac yn ei werthfawrogi.

Dylem grynhoi a dwysáu ein negeseuon a'n marchnata. Bydd hyn yn cryfhau dealltwriaeth pobl o Fynyddoedd Cambrian ac yn cynyddu ein gobaith am lwyddiant. D'yn ni ddim yn diffinio ein marchnad darged drwy oed neu gyfnod bywyd. D'yn ni ddimyn disgrifio ein marchnad yn ddaearyddol – bydd hynny'n cael ei ddiffinio eisoes gan ymdrechion marchnata ehangach Croso Cymru.

Ffordd o feddwl sy'n diffinio ein marchnad ni.

Mae Mynyddoedd Cambrian ar gyfer pobl chwilfrydig, anturiaethwyr a chwilotwyr.

Pobl sydd am dorri eu cwys eu hunain.

Pobl sydd am fentro ymhellach a dod o hyd i le a ffordd o fyw sydd wedi'u creu gan dirwedd a natur.

Pobl sydd am olwg newydd ar fywyd, yn hytrach na dim ond golygfa.

Pobl sydd eisiau teimlo'n agos at y pridd yn hytrach nag ymwelwyr eraill.

Sy'n caru sŵn y gwynt a chrio pell y barcud yn hytrach na dwndwr traffig.

Sydd am weld disgleirdeb y sêr yn hytrach na golau neon.

Sy'n gwerthfawrogi cynnyrch dilys, go iawn.

Pobl a fydd yn mwynhau bwyd a diod lleol mewn mannau ble gallan nhw glywed straeon y diwrnod hwnnw yn ogystal â chwedlau ddoe.

**Mynyddoedd Cambrian. Tir y Teithwyr.**

# For Travellers

The Cambrian Mountains offers a welcome for all. But we want our businesses and communities to thrive. So, we need to focus on visitors who will benefit the area most. In short, we want Contributing Visitors: they contribute to the prosperity of the Cambrian Mountains, they contribute to the Cambrian Mountains story through advocacy and sharing, and they contribute to and appreciate the local culture.

So, we should concentrate our messaging and marketing. This will boost understanding of the Cambrian Mountains and increases our chances of success. We don't define our target market by life-stage or age. We don't describe our market by geography, because this will be defined by the wider marketing efforts of Visit Wales. We define of market by mindset.

The Cambrian Mountains is for the curious, the adventurers and the explorers. For those who would rather not to follow the crowd.

And want to go further to discover a place and a way of life shaped by landscape and nature.

People who want to see life from a new perspective, not just enjoy the view.

And like to feel close to the land, rather than be close to other visitors.

They prefer the sound of the wind and the distant, whistling call of the Red Kite to the constant hum of traffic.

They want to see the bright stars not neon lights.

They value products with real provenance.

They will enjoy local food and drink in places where they can hear the stories of the day as well as the legends of the past.

**The Cambrian Mountains. For Travellers.**





Bydd llawer o bobl yn cael eu tynnu i Fynyddoedd Cambrian i fwynhau gweithgaredd neu ddiddordeb penodol. Boed hynny'n gerdded, yn seiclo, yn wyllo adar neu wyllo'r sêr. Beth bynnag fo eu dewis, r'yn ni'n credu mai'r hyn sy'n eu gosod ar wahân yw eu gwerthoedd a'u gwerthfawrogiad o'u cyrchfan.

Many people will be drawn to the Cambrian Mountains to pursue a particular activity or interest. Whether it be to walk, cycle, birdwatch, or stargaze. But regardless of the favoured pursuit we think their values and appreciation of the place they are visiting is what sets our visitors apart.



# Conglfeini'r Brand

Conglfeini'r brand yw'r seiliau cyson sy'n rhoi eu cymeriad neilltuol i Fynyddoedd y Cambrian, yn fan i ymweld ag ef, yn rhywle i'w fwynhau. Dyma golofnau'r achos.

## Harddwch naturiol

Mae Mynyddoedd Cambrian yn gyfareddol o hardd. Beth bynnag fo'r tymor neu'r tywydd, mae'r tir a'r awyr yn syfrdanol. Dyffrynnoedd llewyrchus yn swatio tan gopaon anghysbell. Nentydd y mynydd, weithiau'n dirion, weithiau'n wyllt, yn troi yn afonydd enwog. Ac yn y nos, rhyfeddodau ein wybren dywyll.

## Rhyddid i'r Gwyllt

Gallwch deimlo rhyddid yma. Man ble mae bywyd pob dydd yn teimlo'n bell. Ble gallwch deimlo'n un â'r ddaear a'r bywyd gwyllt ac â chi eich hun. Man i gymryd amser i ymlacio a theimlo'n well. Ynghudd yng nghalon Cymru, mae'n teimlo'n anghysbell ond mae'n agos hefyd: o fewn llai na dwyawr o daith i rai o'r dinasoedd mwyaf.

## Tirwedd Fyw

Yn ogystal â bod yn hardd a gwyllt, lle i bobl yw Mynyddoedd y Cambrian. Mae pobl wedi byw yma ers miloedd o flynyddoedd. Gan ennill eu bywoliaeth o'r tir trwy ffermio, coedwigaeth a dŵr, yn ogystal â'r cyfoeth yn y pridd. Canrif a hanner yn ôl, roedd hon hefyd yn dirwedd brysur. Mae'n dawelach erbyn hyn, ond mae'r dreftadaeth ddiwylliannol yno o hyd, ar yr wyneb yn aml ac weithiau oddi tano. Heddiw, mae'r cymunedau o gylch y mynyddoedd mor fyw ag erioed. Yn llawn pobl sy'n teimlo'u bod yn perthyn, yn falch o'u hardal ac yn barod i'w rhannu.

## Cymru i'r carn

Mae Mynyddoedd Cambrian yn cynrychioli hanfod Cymru. Wedi'r cyfan mae gwreiddiau 'Cymru' a 'Cambria' yr un peth. Dyma'r mynyddoedd sy'n cysylltu de a gogledd. A'r dwyrain a'r gorllewin. Mae'n teimlo'n addas bod tywysogion a beirdd Cymreig wedi'u claddu yn Abaty Ystrad Fflur, 'Westminster Cymru', trysorfa gwybodaeth a straeon Cymru. Gallwch deithio heddiw hyd y ffyrdd a dorwyd gan fwynwyr, mynachod, porthmyn a ffermwyr Cymru. Mae'r iaith Gymraeg i'w gweld a'i chlywed ar hyd a lled yr ardal.

# Our Brand Pillars

The brand pillars are the consistent foundations which make the Cambrian Mountains the place it is, as somewhere to experience and enjoy. They are the cornerstones of the offer.

## Natural Beauty

The Cambrian Mountains are hauntingly beautiful. Whatever the season and whatever the weather, the landscapes and skylines are astounding. Lonely mountain tops watch over flourishing valleys. Mountain streams, sometimes gentle, sometimes wild, destined to become some of Wales' most famous rivers. At night, the awesome wonder of our dark skies is revealed.

## Accessible Wilderness

There is real sense of freedom here. A place where you can feel a million miles away from the everyday. Where you can connect with the land, the wildlife and yourself. A place where you can take time out and just feel better. Hidden at the heart of Wales it feels remote but, is close: two hours or less from some of Britain's major urban centres.

## Living Landscape

As well as being beautiful and wild, the Cambrian Mountains is a human landscape. People have called this area home for centuries. Earning their living from the land and the riches that lie beneath it. 150 years ago, this was also a busy landscape. Now it is less busy, but the cultural heritage is still there often visible and sometimes just below the surface. Today the communities that surround the mountains are as alive as ever. Full of people who feel a real sense of belonging, proud of their place and ready to share it.

## Essentially Welsh

The Cambrian Mountains represent the essence of Wales. After all, Cambrian means Welsh. The mountains link the north of Wales with the south. And the east with the west. Often called the backbone of the nation, the geographical centre of Wales is here. It feels appropriate that Welsh princes and poets are buried at Strata Florida Abbey, "the Westminster of Wales", a cradle of Welsh stories and knowledge. The routes forged by Welsh miners, monks, drovers and farmers, can still be travelled today. The Welsh language can be seen and heard throughout the region.



# Cynnig y Brand

## Beth yw e?

Mae Mynyddoedd Cambrian yn ucheldir prydfarth, naturiol, yng nghanol a chalon Cymru.

## Sut beth yw e?

Mae'n Gymreig a gwyllt, gyda hanes llawn straeon a chymunedau egniol.

## Ar gyfer pwy?

Mae ar gyfer teithwyr anturus. Pobl sydd eisiau trwytho eu hunain yn y dirwedd a phrofi mannau a diwylliannau newydd.

## Pam ddylai pobl ddewis Mynyddoedd Cambrian?

Mae Mynyddoedd Cambrian'n Ardal o Harddwch Naturiol Syfrdanol. Mae'n lle i adnewyddu, i ailwefru ac adfywio - ar gyfer pobl sydd eisiau profi hanfod Cymru.

# Brand Proposition

## What is it?

The Cambrian Mountains is a beautiful, natural, upland landscape set at the heart of Wales.

## What is it like?


It is wild and Welsh, with a storied history and vibrant communities.

## Who is it for?

It's for travellers with a sense of adventure. People who want to immerse themselves in the landscape and experience new places and cultures.

## Why should people choose the Cambrian Mountains?

The Cambrian Mountains is an Area of Astounding Natural Beauty. A place to refresh, recharge and revive, and for people who want to experience the essence of Wales.





# Llais Mynyddoedd Cambrian

## The Voice of the Cambrian Mountains







Mae gan Fynyddoedd Cambrian stori ardderchog i'w dweud. R'yn ni eisiau i ymwelwyr posib glywed y stori honno. Bydd cael llais unigryw sy'n cydio a denu yn gymorth i gyflawni hynny.

Mae ein llais yn adlewyrchu cymeriad ein brand trwy wefan, y cyfryngau cymdeithasol a deunydd dehongli – ein holl gynnwys a dweud y gwir. Gall y tŷn amrywio gan ddibynnu ar y cyfryngau ac ar yr union neges, ond mae llais Mynyddoedd Cambrian yn aros yr un o hyd.

Mae'n debyg i fywyd go iawn: byddwch yn addasu eich tŷn i weddu â'r person yr 'ych chi'n ei gyfarch ac â natur y pwnc, ond mae eich llais a'ch personoliaeth yn aros yr un peth. Rhaid i'n hagwedd ni at iaith a negeseuon ddenu teithwyr sy'n chwilfrydig. R'yn ni am eu tynnu i mewn a thanio eu diddordeb. Rhaid i'n llais a'n personoliath adlewyrchu ein cynulleidfa – tŷn ac arddull y mae teithwyr yn uniaethu â nhw ac sy'n eu hysbrydoli.

The Cambrian Mountains has a great story to tell. We want potential visitors to hear that story. Having a distinctive voice which engages, and appeals will help achieve this.

Our voice reflects the personality of our brand through the website, social media, interpretation – in fact any content we produce. The tone may vary depending on the media we are using, and on the message, we want to convey, but the Cambrian Mountains voice remains consistent.

Think of it like real life: you adjust your tone according to who you are talking to and what you are talking about, but your voice and your personality remain the same. Our approach to language and messaging needs to attract travellers who want to explore. We want to draw them in and pique their interest. Our voice and our personality need to reflect our audience – a tone and style that travellers engage with and are inspired by.



# Ein Llais

## Naturiol

Mae Mynyddoedd Cambrian yn Ardal o Harddwch Naturiol Syfrdanol. Mae hefyd yn le go iawn, yn lle didwyll. Felly, dylen ni sgrifennu mewn ffordd naturiol. Dylai ein copi fod fel sgwrs a byth yn trio'n rhy galed neu'n rhy ffurfiol. R'yn ni'n cadw pethau'n syml ac uniongyrchol. R'yn ni'n onest a geirwir, ac r'yn ni'n defnyddio straeon ac enghreifftiau go iawn i ddod â Mynyddoedd Cambrian'n fyw. Bydd cyflwyno ffeithiau a straeon yn gwneud i'n copi deimlo'n fwy didwyll a llai sathredig.

## Cyfareddol

Lle i deithwyr yw Mynyddoedd Cambrian. Pobl sydd eisiau chwilota a darganfod. Dylai ein copi greu teimlad o ddarganfod a rhoi'r argraff fod yr ardal yn llawn dop o bosibiliadau. Oherwydd ein bod eisiau denu anturiaethwyr, byddwn yn disgrifio synau, arogleuon, blasau a theimladau. Bydd hyn yn helpu teithwyr llawn chwilfrydedd i ddychmygu eu hunain ym Mynyddoedd Cambrian. Defnyddiwch dechnegau sy'n helpu'r darllenwydd i weld yn eu dychymyg eu bod nhw hefyd yn rhan o'r hyn sy'n digwydd; helpwch nhw i greu darlun o'r siwrnai sydd o'u blaen. Ceisiwch apelio bob amser at emosiynau'r darllenwyr. Canolbwyntiwch ar eiriau a fydd yn apelio at y Teithiwr Chwilfrydig – 'archwilio', 'darganfod', 'dysgu', 'cyfarfod', 'dod o hyd i' a 'dadlennu', yn hytrach na 'gweld', 'teithio' a 'gwyllo'. Mae dweud straeon yn help i greu cyfaredd. Gwnewch i ddarllenwyr deimlo mai ar eu cyfer nhw'n unig y mae'r stori – eu bod yn rhannu cyfrinach.

## Cyffrous

Mae taith trwy Fynyddoedd Cambrian yn cyffroi pobl. Mae'n deffro teimladau ac atgofion. R'yn ni am i'r profiad cyfan adael pobl yn syfrdan. Dylai ein copi helpu i greu'r teimlad o ryfeddod. Fe ddylen ni gynnig gwybodaeth i helpu ymwelwyr i gynllunio ond, yn fwy na hynny, r'yn ni eisiau creu ymateb a thanio cyffro a disgwylgarwch. D'yn ni ddim yn addo gormod ond, yn sicr, d'yn ni ddim yn tanbriso Mynyddoedd Cambrian. R'yn ni'n falch o'r hyn sydd gyda ni i'w gynnig; r'yn ni'n llawn dychymyg wrth ddweud ein stori gan synnu ein cynulleidfa.

# Our Voice

## Natural

The Cambrian Mountains is an Area of Astounding Natural Beauty. It's also real and authentic. So, we should write in a natural way. Our copy should be conversational, never sounding too forced or formal. We keep things simple and straightforward. We are honest and true, and we use real examples and anecdotes to bring the Cambrian Mountains to life. By introducing facts and stories we also help to make the copy feel more authentic and less clichéd.

## Intriguing

The Cambrian Mountains is for travellers. People who want to explore and discover. Our copy should create a sense of discovery and create an impression that the area is alive with possibilities. Because we want to entice explorers, so we describe sounds, scents, tastes and sensations. This will help curious travellers imagine themselves in the Cambrian Mountains. Use techniques which helps the reader visualize they are part of the action, and help them picture their potential journey. Always try to appeal to the reader's emotions. Focus on the words that will appeal to the Curious Traveller – 'explore', 'discover', 'learn', 'meet', 'find' and 'unearth' as opposed to 'see', 'tour' and 'watch'. Storytelling helps to build intrigue. Make readers feel that the story is just being told to them – letting them in on the secret.

## Stirring

A journey through the Cambrian Mountains stirs people. It generates emotions and memories. We want the whole experience to leave people astounded. Our copy should help create this sense of wonder. We should provide information to help visitors plan, but more than that we want to stir a reaction and build excitement and anticipation. We don't over-promise, but we certainly don't undersell the Cambrian Mountains. We are proud of what we have to offer, and we tell our story imaginatively and we surprise our audiences.





## Syfrdanol

Hanfod syniad brand Mynyddoedd Cambrian yw'r gair syfrdanol. Yn y geiriadur, mae'r diffiniad yn cynnwys geiriau fel "rhyfeddol" a "meddwol", yn rhywbeth sy'n "peri syndod".

Mae Mynyddoedd Cambrian yn feddwol o ran eu heffaith ac mae hanes yr ardal yn sicr yn rhyfeddol. Mae'n air y dylai Mynyddoedd Cambrian ei gofleidio. Felly, r'yn ni'n ei ddefnyddio i ddisgrifio profiadau yn ein hardal; "golygfeydd syfrdanol", "straeon syfrdanol", "awyr syfrdanol y nos". Ddylen ni ddim ei orddefnyddio, wrth gwrs, ond ei ddefnyddio pan fydd yn addas.

## Astounding

At the heart of the Cambrian Mountains brand idea is the word astounding. If you look up the word in a dictionary it means ..."surprisingly impressive or notable".

The Cambrian Mountains are impressive, and the history of the area is undoubtedly notable. It's a word the Cambrian Mountains should "own". So, we use it to describe experiences in our area; "astounding views", "astounding stories", "astounding night skies". We shouldn't overuse it, of course, but remember to use it when appropriate.





# Arfer da

Mae gyda ni lais unigryw, ond mae yna rai nodweddion arfer da sydd wastad yn briodol wrth sgrifennu copi neu siarad.

## Byddwch yn Wreiddiol

Mentrwch fod yn wahanol. Mae'n hawdd iawn i ddywediadau blinedig ddod i mewn i'ch copi. Dyw dweud "rhywbeth i bawb" ddim yn debyg o ddenu ymwelwyr newydd. A dyw dweud "dylech roi cynnig arni" ddim yn debyg o argyhoeddi neb i roi cynnig ar rywbeth gwahanol. Mae bod yn wreiddiol weithiau yn golygu torri rhai o 'reolau' cyffredin sgrifennu a defnyddio iaith a fyddai'n gwneud i athro roi stŵr i chi. Mae llawer o'r sgrifenyddyr creadigol mwya' llwyddiannus yn mynd ati'n fwriadol i sgrifennu'n wahanol. Y rheol bwysica' yw sgrifennu yn y ffordd orau i drosglwyddo'r neges i'ch cynulleidfa.

## Byddwch yn Gryno

Yn naturiol, yr hyn sy'n penderfynu hyd y copi yw pwrpas y darn, y cyfrwng a'r gofod ar gael. Er hynny, mae'n bwysig cadw at hynny o eiriau sy'n angenrheidiol i gyfleu'r neges. Mae yna demtasiwn o hyd i ddweud rhagor a llenwi gofod. Yn y byd prysur, diamynedd, diorffwys yma, yr hyn sy'n cydio mewn pobl yw negeseuon cryno sy'n tanio'r dychymyg.

## Defnyddiwch Frawddegau Byrrach

Mae brawddegau byr yn ffordd dda o dynnu sylw pobl a chynnal eu diddordeb. Mae brawddegau hir sy'n llawn o wybodaeth yn anodd i'w darllen a'u treulio. Ceisiwch beidio â dweud mwy nag un neu ddau beth mewn un frawddeg. Fel rheol, ddylai brawddegau fyth gynnwys mwy na 25 o eiriau.

### Rhestr Gwneud-yn-siŵr

Cofiwch am y pethau hyn wrth sgrifennu neu siarad ar ran Mynyddoedd Cambrian.

- Yw e'n gweddu â phersonoliaeth Mynyddoedd Cambrian?
- Ydw i'n cadw at y pwynt?
- Ydw i'n defnyddio iaith effeithiol?
- Ydw i'n bod yn wreiddiol?
- Beth fyddai'n digwydd pe bawn i'n torri ambell i reol?

# Good practice

We may have a distinctive voice, but there are some standards of good practice in copywriting and speaking which always apply.

## Be Original

Be prepared to be different. It's also easy for clichés to creep into copy: "Something for everyone" is very unlikely to attract new visitors. And "you don't know what you're missing" rarely convinces someone to try something different. Being original can sometimes mean breaking some commonly accepted "rules" of writing and using language your teacher may frown upon. But some of the most successful creative writers make a habit of writing differently. The most important rule is to write in the best way to get the message through to your audience.

## Be Concise

Naturally the length of the copy will be dictated by the purpose of the communication, the medium and the space available. However, it is important to use only the words that are necessary to convey the message. There is always a temptation to say more and to fill space. In this busy always-on and impatient world, people engage with succinct, imagination-capturing messages.

## Use Shorter Sentences

A good way of getting people's attention and keeping them engaged is to use shorter sentences. Long sentences that are crammed with information are hard to read and digest. Try not to say more than two things in one sentence. As a rule, sentences should never contain more than 25 words.

### Your checklist

Keep the following in mind when writing or speaking for the Cambrian Mountains.

- Does it fit the Cambrian Mountains personality?
- Am I getting to the point?
- Am I using simple effective language?
- Am I being original?
- What would happen if I broke some rules?



# Delweddau Syfrdanol

## Astounding Imagery







## Dangoswch yr Harddwch

Mae Mynyddoedd Cambrian yn brydferth, yn syfrdanol o brydferth. Beth am ddathlu'r harddwch yn ein ffotograffau. Nid mewn tirweddau yn unig y mae'r harddwch. Mae'r awyr, y bywyd gwylt, y pryfetach, y planhigion, y blodau a'r adeiladau i gyd yn brydferth hefyd. Yn union fel ein copi, dylai ein lluniau 'mawr' gyffroi'r rhai sy'n eu gweld. Felly, dylai ein lluniau gynnig drama ychwanegol. Fe ddylen nhw gyfleu tymer gyfnewidiol y mynyddoedd (mae hi'n gallu bwrw glaw a ddylen ni ddim ofni dangos hynny).



## Show the Beauty

The Cambrian Mountains are beautiful, astoundingly beautiful. Let's celebrate that beauty in our photography. The beauty is not just in the landscape. The skyscape, wildlife, insects, plants flowers and our built heritage are beautiful too. Our hero shots, just like our copy should stir the viewer. So, our imagery should offer added drama. They should reflect the changing mood of the mountains (we know it rains, and we should not be afraid to reflect this).







## Byddwch yn naturiol

Mae Mynyddoedd Cambrian yn wirioneddol Gymreig. Mae'n le byw gyda chymunedau egniol. Felly, dylai ein lluniau fod yn real hefyd. Dyw lluniau 'Bocs Siocled' ddim yn gweddu fan hyn. Gwell cael lliwiau naturiol eu tô neu hyd yn oed rai wedi'u lleddfu. Ddylen ni ddim gor-drefnu ffotograffau. Lluniau ffotowyddiadurol neu flogio sy'n teimlo'n iawn.



## Be Natural

The Cambrian Mountains are authentically Welsh. It is a living place with active communities. It follows that our imagery should also feel real. "Chocolate Box" photos are for other places. Tonally natural hues and perhaps muted tones are preferred.








## Dangoswch y Manylion

Gall lluniau manwl a lluniau o gynnyrch helpu i sefydlu hierarchiaeth i'r llygad o fewn ein ffotograffiaeth. Mae lluniau manwl yn rhoi'r cyfle i deithwyr posib ymdreiddio'n ddyfnach i enaid yr ardal. Mae modd eu defnyddio i ddangos bod Mynyddoedd Cambrian yn llawn bywyd, o ran bywyd gwylt a phobl. Maen nhw'n helpu i ddatgelu cymeriad Cymreig Mynyddoedd Cambrian gan ddatgelu ein straeon a'n chwedlau. Mae modd defnyddio'r lluniau hyn i dynnu sylw at y digwyddiadau bychain a'r manylion sy'n aml iawn yn cael eu hanwybyddu. Er mwyn sicrhau bod manylion yn amlwg, defnyddiwrch ddyfnder ffocws byr. Bydd hyn yn sicrhau bod testun y llun yn glir a'r cefndir yn fwy niwlog, gan orfodi'r gwylwr i ganolbwyntio ar y manylion sydd o bwys.



## Reveal the Detail

Detail and product shots can help establish a visual hierarchy within photography. Detail shots allow potential travellers to delve deeper into or area. They can be used to show that the Cambrian Mountains are alive. With wildlife and with people. They help reveal the Welsh identity of the Cambrian Mountains and uncover our stories and legends. These shots can be used to highlight the smaller moments and details that are too often overlooked. To make the detail stand out use a short depth of field. This will bring the subject matter into focus and blur out the background forcing the viewer to focus on the detail that matters.







## Byddwch yn Ddynol

Mae pobl yn rhan bwysig o frand a phrofiad Mynyddoedd Cambrian. Felly, mae'r berthynas rhwng pobl a lle yn greiddiol i'n personoliaeth weledol. Hyd yn oed pan fyddwn yn tynnu sylw at ein harddwch, byddwn yn dangos sut y mae pobl wedi effeithio ar y golygfeydd, gydag adeiladau, waliau cerrig neu weddillion diwydiannol. Dangoswch ymwelwyr a phobl leol yn cysylltu â'i gilydd ac yn gwneud pethau yn yr amgylchedd. Mae dangos pobl mewn lle penodol yn helpu'r gwylwyr ddychmygu eu bod yno. Mae hefyd yn tynnu sylw at faint cymharol a rhyfeddod y cefndir.



## Be Human

People are an important part of the Cambrian Mountains brand and experience. So, the relationship between people and place is inherent to our visual identity. So even when we are showcasing our beauty, we show how people have affected the landscape such as buildings, stone walls, industrial remains. Show visitors and hosts connecting with each other and doing things in the environment. Showing people in a place setting helps the viewer imagine themselves there. It also highlights the scale and wonder of the backdrop.





## Rhestr Gwneud-yn-siŵr wrth Ddewis Lluniau

Ewch i drafferth wrth ddewis eich cymysgedd o luniau gan wneud yn siŵr:

- Eu bod yn teimlo'n real
- Bod yna gysylltiad dynol
- Bod dyfnder iddyn nhw
- Bod yna gymysgedd o luniau 'mawr' a lluniau manwl
- Eu bod yn syfrdanol o hardd
- Eu bod yn helpu'r gynulleidfa i ddychmygu eu hunain yn Mynyddoedd Cambrian.

## Image Selection Checklist

Carefully select your mix of images, making sure:

- They feel authentic
- There is a human connection
- They have depth
- There is a mix of hero and detail shots
- They are astoundingly beautiful
- They help the audience imagine themselves in the Cambrian Mountains.





## Mynyddoedd Cambrian

# Datblygu a Marchnata yn y Dyfodol

Trwy waith Menter Mynyddoedd Cambrian mae cynnydd mawr wedi'i wneud wrth greu adnabyddiaeth o Mynyddoedd Cambrian yn gyrchfan benodol yng Nghymru. Mae ymwelwyr yn dod yn fwy ymwybodol o'r ardal hon. Mae busnesau twristiaeth yn defnyddio logo Mynyddoedd Cambrian tra bod ymwelwyr yn gynyddol yn defnyddio #mynyddoeddcambrian Mae Croeso Cymru yn rhoi sylw i Fynyddoedd Cambrian wrth hyrwyddo. Mae cynhyrchwyr lleol eisiau cael eu cysylltu â'r ardal ac mae awdurdodau lleol Powys, Ceredigion a Sir Gâr oll wedi cydnabod potensial Mynyddoedd Cambrian fel gyrchfan.

Yn yr adran hon, r'yn ni'n tynnu sylw at yr egwyddorion a ddylai, yn ein barn ni, fod yn sail i ddatblygu a marchnata yn y dyfodol.

## Ein Gweledigaeth ar gyfer Mynyddoedd Cambrian

Rhanbarth sy'n sefydlog, yn economaidd a chymdeithasol. Lle mae pobl yn credu a theimlo y gallan nhw ffynnu. Lle y mae pobl a busnesau'n falch o gael cysylltiad ag e.

Ar sail egwyddorion twristiaeth adnewyddol, mae Mynyddoedd Cambrian wedi dod yn batrwm o ddatblygu twristaidd. Lle y mae pobl wirioneddol eisiau dod iddo, ble maen nhw'n parchu natur a diwylliant lleol.

## The Cambrian Mountains

# Future Development and Marketing

Through the work of the Cambrian Mountains initiative, great progress has been made in building recognition of the Cambrian Mountains. Visitors are becoming more aware of the area. Tourism businesses are using the Cambrian Mountains logo. Visit Wales is doing more to feature the Cambrian Mountains in their promotion. More products want to be associated with the area and the local authorities of Powys, Ceredigion and Carmarthenshire have all recognised the potential of the Cambrian Mountains as a destination. Responsibility for the future

Cambrian Mountains is unclear. As are the capacity and financial resources available. We want to see the Cambrian Mountains continue to develop and prosper. In this section we highlight the principles which we believe should underpin future development and marketing

## Our Vision for the Cambrian Mountains

A region that is economically and socially stable. Where people believe they can prosper. A place that people and businesses are proud to be associated with.

Based on regenerative tourism principles, the Cambrian Mountains has become an exemplar of how tourism should be developed, learning from over-development in other areas. A place that people really do want to come to and will respect local culture and nature.



## Blaenoriaeth Strategol #1

# Bod yn batrwm o ddatblygu twristiaid

### **Pryd yn union fydd twristiaeth yn peidio â bod yn ased economaidd iach ac yn dechrau achosi difrod?**

Wrth i dwristiaeth yn y rhanbarth dyfu, gan ddod â swyddi a ffyniant a chynnal cymunedau, gall hefyd roi stren ar isadeiledd, ar fioamrywiaeth ac ar y diwylliant lleol.

Felly, mae'n hanfodol ein bod yn datblygu twristiaeth mewn ffordd sy'n gwneud y gorau o'r buddiannau i'r economi twristiaid lleol ond sydd hefyd yn gwarchod y pethau sy'n gwneud Mynyddoedd Cambrian yn arbennig.

Hyn a hyn o lety sydd ar gael. Ac mae'n bwysig cydnabod bod rhaid i dwristiaeth fyw mewn cytgord gyda diwydiannau pwysig eraill, megis ffermio a choedwigaeth, natur a chadwraeth. Mae hyn i gyd yn awgrymu ei bod yn bwysig denu ymwelwyr sy'n gwerthfawrogi'r lle trwy leihau'r pwysau ar isadeiledd a bioamrywiaeth bregus yr ardal.

R'yn ni eisiau datblygu twristiaeth ar sail egwyddorion twristiaeth adnewyddol. Nod twristiaeth adnewyddol yw sicrhau bod twristiaeth yn esblygu mewn ffordd sy'n cynnal busnesau, yn cynnwys cymunedau ac yn rhoi cyfle iddyn nhw gyfrannu at warchod yr amgylchedd.

Yn y byd wedi'r pandemig, gyda phwysau ar adnoddau naturiol a gyda heriau hinsawdd, bydd yr egwyddorion hyn yn fwy pwysig nag erioed i gyrchfannau. Ond ein cred ni yw eu bod yn arbennig o allweddol i Fynyddoedd Cambrian.

Mae Menter Mynyddoedd Cambrian yn cydnabod pwysigrwydd gweithio gyda chymunedau a phartneriaid gan mai dyna sylfeini twristiaeth adnewyddol go iawn.

## Strategic Priority #1

# Become an Exemplar for Regenerative Tourism

### **At what point does tourism stop being a healthy economic asset and start to do damage?**

As tourism to the region grows, brings jobs and prosperity and supports communities, it can also put strains on infrastructure, biodiversity and local culture. Therefore, it is vital, that we grow tourism in a way that optimizes the benefits to the local visitor economy whilst protecting the things which make the Cambrian Mountains special.

The road and transport infrastructure are not suited to mass tourism. The accommodation capacity is limited. And it is important to acknowledge that tourism must exist in harmony with other important industries like farming, and forestry. This all suggests that it is important to attract high value tourists who bring income and jobs whilst minimising pressures on infrastructure and fragile biodiversity.

We want develop tourism based on regenerative tourism principles. Regenerative tourism seeks to ensure tourism evolves in a way that businesses are sustained, communities are engaged and involved, and the environment is protected.

In a post pandemic world with pressure on natural resources and climate challenges these principles will become ever more important for any destination, but we believe they are particularly key for the Cambrian Mountains.

The Cambrian Mountains Initiative has always recognised the importance of working with communities and partners, these are the foundations for a genuine regenerative tourism.



## Blaenoriaeth Strategol #2

# Creu Undod

Mae Mynyddoedd Cambrian yn cysylltu tair sir. Mae'n cysylltu sawl rhan o Gymru. Efallai na fydd pobl sydd wedi ymweld â'r trefi o amgylch Mynyddoedd Cambrian, neu sydd wedi teithio hyd rai o'r ffyrdd neu'r rheilffyrdd, yn sylweddoli mai ym Mynyddoedd Cambrian yr oedden nhw.

**Gweithredu 1 – Gwella'r Cysylltiadau Ledled y Rhanbarth** – Gwella'r Cysylltiadau Ledled y Rhanbarth – Mae Menter Mynyddoedd Cambrian wedi ceisio cysylltu cymunedau a busnesau ledled y rhanbarth. Mae rhagor o waith i'w wneud i gynyddu undod a chydweithredu. Bydd hyn yn gymorth i gadarnhau bod Mynyddoedd Cambrian yn gyrchfan glir ym meddyliau ymwelwyr a rhanddeiliaid.

Mae cyfle i greu rhagor o deithiau a llwybrau sy'n cysylltu gwahanol rannau'r rhanbarth. Mae creu Llwybr Seryddol Mynyddoedd Cambrian yn esiampl wych ac mae cyfle am ragor o deithiau penodol ar gyfer ymwelwyr ar droed, ar feic ac mewn car – er enghraifft wedi eu cysylltu gan Goedwig Genedlaethol Cymru.

**Gweithredu 2 – Creu Dynodiad Statws Porth i Fynyddoedd Cambrian** – O amgylch Mynyddoedd Cambrian mae cadwyn o drefi a chymunedau pwysig. Maen nhw oll yn byrth posib i Fynyddoedd Cambrian. Bydd creu dynodiad porth swyddogol yn annog y cymunedau i gydweithio. Os bydd y trefi'n mabwysiadu'r statws ar arwyddion ac wrth farchnata, bydd hyn yn helpu hefyd i dynnu sylw at y gyrchfan (gweler Gweithredu 3 islaw).

**Gweithredu 3 – Creu Teimlad o Gyrraedd** – Yn rhannol am nad yw Mynyddoedd Cambrian wedi cael dynodiad statws swyddogol, mae wedi bod yn anodd dangos ar fap bod Mynyddoedd Cambrian yn ardal benodol a chreu arwyddion sy'n cyhoeddi bod ymwelwyr wedi cyrraedd. Eu gwneud yn ymwybodol eu bod ym Mynyddoedd Cambrian. Tra bod rhagor o fusnesau a phartneriaid yn dangos logo Mynyddoedd Cambrian, mae yna gyfle i ddyfeisio ffyrdd llawn dychymyg i farchnata'r ardal. Efallai bod esiampl llwybrau ymwelwyr megis y Camino de Santiago yn cynnig ysbrydoliaeth.

## Strategic Priority #2

# Build Cohesion

The Cambrian Mountains links 3 counties. It connects many distinct parts of Wales. People who have visited the towns that surround the Cambrian Mountains, or travelled some of the network roads and trails, may not have appreciated they were in the Cambrian Mountains.

**Action 1 – Enhance Links Across the Region** – The Cambrian Mountains Initiative has strived to connect communities and businesses across the region. But there is still work to do to grow cohesion and collaboration. This will help to cement the Cambrian Mountains as a distinct destination in the minds of visitors and stakeholders.

There is an opportunity to create more itineraries, trails and routes that connect the different parts of the regions. The establishment of the Cambrian Mountains Astro Trail is a great example and there is scope for more defined trails for walkers, cyclists, and car tourists.

**Action 2 – Create a Gateway Town Designation** – Surrounding the Cambrian Mountains is a necklace of important towns and communities. They are all potential gateways to the Cambrian Mountains. Creating an official gateway designation will encourage the communities to work together. If the towns adopt the designation on signage and in marketing, this will also help to mark the destination (see action 3 below)

**Action 3 - Create a Sense of Arrival** - Partly because the Cambrian Mountains has not had an official designation, it has been difficult to show the Cambrian Mountains as a distinct area on maps and to create signage to announce arrival and make visitors aware they are in the Cambrian Mountains. Whilst more businesses and partners are showing the Cambrian Mountains logo, there is an opportunity to devise more imaginative ways of marking the territory. The way in which traveller routes such as the Camino de Santiago are marked may provide inspiration.



## Blaenoriaeth Strategol #3

# Ychwanegu Gwerth

Mewn sawl ffordd, dylai creu ac ychwanegu gwerth fod yn sail i farchnata Mynyddoedd Cambrian yn y dyfodol.

**Gweithredu 1 – Cynyddu gwerth cysylltiad gyda Mynyddoedd Cambrian** – Swyddogaeth y brand yw ychwanegu gwerth. Wrth i ymwybyddiaeth o Fynyddoedd Cambrian gynyddu, bydd rhagor o fusnesau twristaidd yn gweld gwerth mewn defnyddio'r dynodiad yn eu marchnata eu hunain. Yn ogystal, bydd rhagor o gynhyrchwyr yn cynnwys ac yn enwi Mynyddoedd Cambrian wrth becynnu. Bydd gan "Cynhyrchwyd ym Mynyddoedd Cambrian" werth go iawn.

**Gweithredu 2 – Targedu amrywiaeth eang o ymwelwyr sy'n gwerthfawrogi Mynyddoedd Cambrian** – Trwy adlewyrchu'r angen i wneud y gorau o fuddiannau economaidd a chymdeithasol twristiaeth a gwarchod arbenigrwydd yr ardal yr un pryd, bydd gwaith marchnata'n rhoi blaenoriaeth i ymwelwyr sy'n ychwanegu fwyaf at ffyniant yr ardal. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r math o gynnyrch a phrofiadau y maen nhw'n eu deisyfu yn ogystal â'r adeg y byddan nhw'n debygol o ddod – bydd ymwelwyr yn y misoedd o amgylch y prif dymor yn estyn y tymor ac yn cynnal busnesau lleol.

**Gweithredu 3 – Targedu ymwelwyr sy'n parchu ac yn mwynhau'r diwylliant a'r amgylchedd lleol** – Mae strategaeth y brand yn nodi ymwelwyr sydd â ffordd benodol o feddwl. Mae hyn yn cynnwys gwerthfawrogi a pharchu'r ardal ble byddan nhw.

**Gweithredu 4 – Annog Datblygu Cynnyrch Gwerth Uwch** – Mae ymwelwyr o chwaeth yn barod i wario arian ar gynnyrch a phrofiadau safonol. Bydd y brand newydd a'r ymdrechion i ddenu ymwelwyr sy'n gwerthfawrogi cyrchfan yn gosod seiliau i annog busnesau presennol i fuddsoddi a denu buddsoddiad i Fynyddoedd Cambrian.

## Strategic Priority #3

# Add Value

Building and adding value should underpin the future marketing of the Cambrian Mountains in several ways.

**Action 1 - Build the value of association with the Cambrian Mountains** - The role of a brand is to add value. As awareness of the Cambrian Mountains increases, more tourism businesses will see value using the designation in individual marketing. In addition, more local producers will feature the Cambrian Mountains in packaging and naming. "Made in the Cambrian Mountains" will have real value.

**Action 2 – Target higher value visitors** – Reflecting the need to maximise the economic and social benefits of tourism whilst safeguarding the specialness of the area, marketing will prioritise the visitors who will add most the prosperity of the area. This includes an assessment of the kind of products and experiences they desire as well as the time of year they are likely to visit – visitors in the shoulder months will help to extend the season and sustain local businesses.

**Action 3 – Target visitors who will respect and enjoy the local culture and environment** – The brand strategy identifies visitors with a particular mindset. This includes an appreciation and respect for the area they are visiting.

**Action 4 – Encourage Higher Value Product Development** – Discerning visitors are prepared to spend money on quality products and experiences. The new brand and the efforts to attract higher value visitors will provide the foundations to encourage existing business to invest and to attract investment into the Cambrian Mountains.



## Blaenoriaeth Strategol #4

# Testun Siarad a Rhannu

Mae technoleg a'r cyfryngau digidol a chymdeithasol wedi newid natur twristiaeth. Mae'r newidiadau hyn wedi effeithio ar agweddau gofyn a chyflawni'r diwydiant. Yn gynyddol, nid hysbysebu confensiynol sy'n arwain ein barn. R'yn ni'n gwrthod ffynonellau gwybodaeth swyddogol. Ein rhwydweithiau cymdeithasol sy'n siapio ein penderfyniadau. Ac mae cyfryngau digidol yn dod â'r byd yn nes. Mae gyda ni'r arfau a'r wybodaeth i benderfynu ble a phryd i fynd, sut i gyrraedd, pa mor hir i aros, ble i aros, beth wnawn ni ar ôl cyrraedd a gyda phwy.

Er na wyddon ni faint y gyllideb yn y dyfodol, mae'n annhebyg o fod yn ddigon ar gyfer hysbysebu confeniynol. Felly, bydd yn hanfodol cynhyrchu deunydd ar gyfer Mynyddoedd Cambrian trwy ladmeryddion, trwy greu cynnwys a rhannu syniadau gwych. Mae rôl y cyfryngau - y rhai traddodiadol yn ogystal â'r cyfryngau newydd - hefyd yn bwysig. Mae gwaith y blynyddoedd diwetha'n dangos hynny a bydd rhaid i weithredu'r dyfodol atgyfnerthu hyn.

**Gweithredu 1 – Parhau i Adeiladu a Defnyddio Rhwydweithiau Cymdeithasol** – Mae Menter Mynyddoedd Cambrian wedi llwyddo wrth greu rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys Twitter, Facebook ac Instagram. Oherwydd ansawdd y deunydd a grëwyd, mae llawer ar y rhwydweithiau yn rhannu. Dylai fod ymdrech fwriadol i adeiladu ymhellach ar y rhwydweithiau hyn.

**Gweithredu 2 – Buddsoddi yng ngwefan [thecambrianmountains.co.uk](http://thecambrianmountains.co.uk)** – Er mai'r flaenoriaeth yw creu deunydd ar sianeli eraill ar y cyfryngau, mae yna gyfle i ailwampio gwefan y gyrchfan. Mae angen i roi sylw i'r lluniau pwerus sydd wedi eu creu ac i gynnwys deunydd deinamig.

**Gweithredu 3 – Cynyddu'r Gwaith gyda Dylanwadwyr a'r Cyfryngau Teithio** – Gan weithio mewn partneriaeth gyda Croeso Cymru a Twristiaeth Canolbarth Cymru, dylai fod strategaeth weithredol i greu cysylltiadau gyda'r cyfryngau. Mae Croeso Cymru eisiau gweithio gyda phartneriaethau gweithgar ledled Cymru ac mae Menter Mynyddoedd Cambrian wedi dangos cefnogaeth weithredol. Mae Croeso Cymru yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth yma a bydd yn y pen draw yn arwain at ragor o sylw. Mae modd ategu ac ychwanegu at waith Croeso Cymru a Twristiaeth Canolbarth Cymru i ddenu rhagor o sylw i'r rhanbarth.

## Strategic Priority #4

# Generate Talkability and Shareability

Technology, digital and social media has changed the tourism landscape. These changes have affected the supply and demand sides of tourism. Conventional advertising no longer shapes our opinions. We shun official sources of information. Our social networks shape our decisions. And digital media brings the world closer to us. So, we have the tools and the knowledge to decide where and when to go, how to get there, how long to go for, where to stay, what we will do when we get there and who we will do it with.

Although the future budget is unknown, it is unlikely to be significant enough for conventional advertising. So, it will be vital to generate content for the Cambrian Mountains through advocacy, content creation and sharing, and great ideas. The role of the media – traditional channels as well as new media is also important. The work undertaken in recent years reflects this, and future activity will need to strengthen this approach.

**Action 1 – Continue to Build and Leverage Social Networks** – The Cambrian Mountain Initiative has successfully built social media networks including, Twitter, Facebook and Instagram. Because of the quality of the content created, many in the network are active sharers. There should be a concerted effort to further build these networks.

**Action 2 – Invest in [thecambrianmountains.co.uk](http://thecambrianmountains.co.uk)** - Whilst generating content in other media channels is the priority, there is an opportunity to revamp the destination website. There is need to showcase the powerful imagery that has been created and to host dynamic content.

**Action 3 – Accelerate Work with Influencers and Travel Media** – Working in partnership with Visit Wales and Mid Wales Tourism, there should be a proactive media relations strategy. Visit Wales want to work with active partners across Wales and Cambrian Mountain Initiative have demonstrated active support on the ground. This support is valued by Visit Wales and will ultimately led to more coverage. The work of Visit Wales and Mid Wales Tourism can be supplemented and complemented to further boost coverage of the region.



## Blaenoriaeth Strategol #4

# Testun Siarad a Rhannu

**Gweithredu 4 – Dathlu Cynnyrch Newydd ac Arloesi** – Mae'r cyfryngau teithio wastad yn chwilio am gynnyrch newydd ac enghreifftiau o arloesi. Un elfen ganolog sy'n gysylltiedig â 3 uwchlaw yw'r angen i ddathlu cynhyrchion newydd. Bydd y gwaith hwn hefyd yn dangos gwerth Menter Mynyddoedd Cambrian i aelodau a rhanddeiliaid.

**Gweithredu 5 – Creu Cyfleoedd am Luniau a Rhannu** – R'yn ni'n byw yn y genhedlaeth Instagram. Mae pobl eisiau rhannu eu profiadau teithio gyda'u rhwydweithiau cymdeithasol. Er mai bratiog yw ansawdd y signal ar draws y rhanbarth, dylai fod cyfleon i greu manau tynnu llun i arddangos harddwch a drama syfrdanol Mynyddoedd Cambrian. Mae modd hyrwyddo'r rhwydwaith hwn o fannau Instagram trwy'r cyfryngau cymdeithasol a gwefan [thecambrianmountains.co.uk](http://thecambrianmountains.co.uk). Gall hashnodau creadigol wedyn sicrhau bod y cynnwys yn cael ei rwydo a'i rannu.

## Strategic Priority #4

# Generate Talkability and Shareability

**Action 4 – Celebrate New Products and Innovation** – The travel media is constantly searching for new products and for examples of innovation. As a key focus and linked to action 3 above, there is a need to celebrate new products. This work will additionally demonstrate the value of the Cambrian Mountains Initiative to members and stakeholders.

**Action 5 – Create Photo and Sharing Opportunities** – We live in the Instagram generation. People want to share their travel experiences with their social networks. Whilst signal coverage is patchy across the region, there should be opportunities to create photo spots to showcase the astounding beauty and drama of the Cambrian Mountains. This network of Instagram spots can be actively promoted through social media and [Thecambrianmountains.co.uk](http://Thecambrianmountains.co.uk). Creative hashtags can then ensure the content is captured and reshared.



